SWIM WALES
NOFIO CYMRU

**<u>Cyfraniad Eithriadol i Gampau Dŵr</u>**

***Disgrifiad:***
Mae'r 'Wobr Cyfraniad Eithriadol' yn anrhydedd fawreddog a gyflwynir i unigolyn neu glwb sydd wedi dangos ymrwymiad rhyfeddol i weithgareddau dyfrol yng Nghymru. Mae'r wobr hon nid yn unig yn fodd i gydnabod, ond hefyd yn llwyfan i ddathlu eu cyflawniadau eithriadol, sydd wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar ein cymuned ddyfrol ac sy'n gwasanaethu fel ysbrydoliaeth i genedlaethau'r dyfodol barhau â datblygiad ein chwaraeon.

***Meini Prawf:***

- Rhaid bod wedi ymaelodi a Nofio Cymru.
- Tystiolaeth bod y gofynion uchod wedi eu cyflawni o fewn y 12 mis diwethaf.
- Rhaid gallu dangos enghreifftiau o arfer da, y buddiolwyr ac effaith.
- Yn cyd-fynd â'n gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd.

**<u>Athletwr Perfformiad Ifanc</u>**

***Description:***
Disgrifiad:  Mae'r categori hwn yn agored i athletwyr hyd at 18 oed (ar 31 Rhagfyr 2023), sydd wedi perfformio gyda rhagoriaeth ar y llwyfan cenedlaethol a/neu ryngwladol iau yn ystod 2023, tra hefyd yn arddangos 'ymddygiadau buddugol' rhagorol wrth ymarfer a chystadlu.

***Criteria:***

- Mae'r categori hwn ar agor i nofwyr hyd at 18 oed (ar 31 Rhagfyr 2023).
- Yn cynrychioli Cymru.
- Wedi cael eu dewis ar gyfer Rhaglen Sgwad Genedlaethol Nofio Cymru.

**<u>Athletwr Perfformiad</u>**

***Disgrifiad:***
Mae'r categori hwn yn agored i athletwyr sydd wedi perfformio gyda rhagoriaeth ar y llwyfan rhyngwladol hŷn yn ystod 2023, tra hefyd yn arddangos ymddygiadau sy'n ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.

***Meini Prawf:***

- Mae'r categori hwn yn agored i bob athletwr.
- Yn cynrychioli Cymru.
- Cael eich dewis ar gyfer Rhaglen Sgwad Genedlaethol Nofio Cymru.

**Para-Athletwr Ifanc**

***Disgrifiad:***
Mae'r categori hwn yn agored i bara-athletwyr hyd at 18 oed (ar 31 Rhagfyr 2023) sydd wedi perfformio gyda rhagoriaeth ar y llwyfan rhyngwladol yn ystod 2023, tra hefyd yn arddangos ymddygiadau sy'n ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.

***Meini Prawf:***

- Mae'r categori hwn ar agor i nofwyr hyd at 18 oed (ar 31 Rhagfyr 2023).
- Mae'r categori hwn yn agored i bara-athletwyr sy'n dal naill ai dosbarthiad Nofio Para Byd-eang (WSP) cyfredol, dosbarthiad Nofio Para Prydain (S1-S13 cynhwysol) neu Ddosbarthiad INAS-FID / VIRTUS (S14).
- Yn cynrychioli Cymru.
- Cael eich dewis ar gyfer Rhaglen Sgwad Genedlaethol Nofio Cymru.

**Para Athletwr**

**Disgrifiad:**
Mae'r categori hwn yn agored i bara-athletwyr sydd wedi perfformio gyda rhagoriaeth ar y llwyfan rhyngwladol yn ystod 2023, tra hefyd yn arddangos ymddygiadau sy'n ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.

**Meini Prawf:**

- Mae'r categori hwn yn agored i bara-athletwyr sy'n dal naill ai dosbarthiad Nofio Para Byd-eang (WSP) cyfredol, dosbarthiad Nofio Para Prydain (S1-S13 cynhwysol) neu Ddosbarthiad INAS-FID / VIRTUS (S14).
- Yn cynrychioli Cymru
- Cael eich dewis ar gyfer Rhaglen Sgwad Genedlaethol Nofio Cymru

## Clwb Perfformiad y Flwyddyn

***Disgrifiad:***
Mae'r categori hwn yn cydnabod clwb sydd wedi gwneud cyfraniad ac ymrwymiad rhagorol i ddatblygiad athletwyr perfformiad a phara-athletwyr yn ystod 2023.

***Meini Prawf:***

- Bod yn glwb sy'n gysylltiedig â Nofio Cymru.

## Hyfforddwr Perfformiad

***Disgrifiad:***
Mae'r categori hwn yn cydnabod hyfforddwr sydd wedi gwneud cyfraniad ac ymrwymiad rhagorol i ddatblygiad athletwyr perfformiad a phara-athletwyr yn ystod 2023, o fewn eu rhaglen gartref a'r Rhaglen Genedlaethol.

***Meini Prawf:***

- Bod yn aelod o Nofio Cymru.
- Wedi'i leoli mewn clwb a/neu raglen sy'n gysylltiedig â Nofio Cymru.

## Athletwr Dŵr Ifanc

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon yn cydnabod athletwr dŵr ifanc, ar unrhyw lefel mewn unrhyw gamp dŵr, hyd at 18 oed (ar 31 Rhagfyr 2023), sydd wedi datblygu eu sgiliau, yn arddangos 'ymddygiadau buddugol' rhagorol wrth ymarfer a chystadlu ac yn esiampl i eraill.

***Meini Prawf:***

- Mae'r categori hwn ar agor i nofwyr hyd at 18 oed (ar 31 Rhagfyr 2023).
- Mae'n rhaid bod ag aelodaeth Nofio Cymru gyfredol.

**Athletwr dŵr**

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon i gydnabod athletwr dŵr ar unrhyw lefel mewn unrhyw gamp dŵr, sydd wedi datblygu eu sgiliau, yn arddangos 'ymddygiadau buddugol' rhagorol wrth ymarfer a chystadlu ac yn esiampl i eraill.

***Meini Prawf:***

- Mae'n rhaid bod gennych aelodaeth Nofio Cymru gyfredol.

**Hyfforddwr Dŵr**

***Disgrifiad:***
Mae'r categori hwn yn cydnabod hyfforddwr sydd wedi gwneud cyfraniad ac ymrwymiad rhagorol i'r llwybr campau dŵr yng Nghymru, mewn unrhyw gamp dŵr, trwy gydweithio a datblygu athletwyr a phara-athletwyr yn ystod 2023.

***Meini Prawf:***

- Bod yn aelod o Nofio Cymru.
- Wedi'i leoli mewn clwb a/neu raglen sy'n gysylltiedig â Nofio Cymru.

**Effaith ar y Gymuned**

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon yn cydnabod unigolyn, clwb, gweithredwr neu raglen sydd wedi dod â'r gymuned at ei gilydd drwy weithgaredd dŵr. Bydd yr enillydd wedi ysbrydoli newid cadarnhaol ac wedi cyflwyno menter sydd wedi gwella bywydau'r gymuned gan gyfrannu at les cymdeithasol, meddyliol a chorfforol gwell.

***Meini Prawf:***

- Rhaid gallu dangos llywodraethu da.
- Rhaid dangos enghreifftiau o arfer cynhwysol o ansawdd uchel.
- Dangos enghreifftiau o arfer da, y buddiolwyr a'r effaith.

## Effaith ar Iechyd

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon yn cydnabod unigolyn, clwb, gweithredwr neu raglen sydd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i ganlyniadau iechyd trwy weithgaredd dŵr. Bydd yr enillydd yn dangos partneriaethau a mentrau iechyd sydd wedi ysbrydoli newid cadarnhaol i'r rhai â chyflyrau iechyd neu namau tymor hir ac yn mesur yr effaith y mae'r rhaglen wedi'i chael ar les corfforol, cymdeithasol ac emosiynol.

***Meini Prawf:***

- Rhaid gallu dangos llywodraethu da.
- Rhaid dangos enghreifftiau o arfer cynhwysol o ansawdd uchel.
- Dangos enghreifftiau o arfer da, y buddiolwyr a'r effaith.

## Clwb Campau Dŵr y Flwyddyn

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon yn cydnabod clwb sy'n arddangos ymddygiad rhagorol sy'n creu amgylchedd diogel, pleserus a blaengar sy'n galluogi i'w aelodau ffynnu.  Rhaid i glybiau ddangos datblygiad cynhwysol, arloesol neu gynaliadwy (e.e. cynllunio olyniaeth clwb neu ddatblygu llwybr y clwb) yn ogystal ag ymrwymiad i ddatblygu a hyfforddi athletwyr a gwirfoddolwyr.

***Meini Prawf:***

- Tystiolaeth bod y gofynion uchod wedi'u bodloni o fewn y 12 mis diwethaf.
- Rhaid bod yn glwb cysylltiedig â Nofio Cymru.

**Effaith Cynhwysiant**

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon yn dathlu llwyddiant unigolyn, clwb, gweithredwr, neu raglen sydd wedi cyflawni cynnydd sylweddol wrth feithrin cynhwysiant o fewn gweithgareddau dyfrol. Dylai'r derbynnydd gallu arddangos ei ymdrechion i ymgysylltu â chymunedau amrywiol, gan ddileu rhwystrau, a thynnu sylw at yr effaith gadarnhaol y mae wedi cael ar unigolion neu gymunedau.

***Meini Prawf:***

- Tystiolaeth bod y gofynion uchod wedi eu cyflawni o fewn y 12 mis diwethaf.
- Rhaid gallu dangos llywodraethu da.
- Rhaid dangos enghreifftiau o arfer cynhwysol o ansawdd uchel.
- Dangos enghreifftiau o arfer da, y buddiolwyr ac effaith.

**Swyddog Technegol Campau Dŵr**

***Disgrifiad:***
Bwriad y wobr hon yw gwobrwyo Swyddog Technegol, o unrhyw ddisgyblaeth, sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol a chadarnhaol i gampau dŵr yng Nghymru, yn enwedig i ddigwyddiadau clybiau trwyddedig, rhanbarthol a chenedlaethol. Rhaid iddynt hefyd fod wedi dangos ymrwymiad i'w datblygiad personol eu hunain trwy lwybr y swyddog. Efallai eu bod hefyd wedi gwneud cyfraniadau ac effaith sylweddol eraill fel rhan o'u gwaith gwirfoddoli.

***Meini Prawf:***

- Mae'n rhaid bod ag aelodaeth Nofio Cymru gyfredol.
- Rhaid iddyn nhw beidio â bod yn derbyn tâl am wasanaethau gwirfoddol.
- Rhaid meddu ar gymhwyster neu ardystiad swyddogol technegol cydnabyddedig sy'n berthnasol i'w rôl a'u gweithgarwch.

## Gwirfoddolwr Campau Dŵr Ifanc

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon i gydnabod person ifanc sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol a chadarnhaol i gampau dŵr yng Nghymru. Yn ogystal â dangos ymroddiad i ddatblygiad personol, rhaid i enwebeion fod wedi dangos ymrwymiad i ddatblygu a hyrwyddo campau dŵr yng Nghymru. Efallai eu bod wedi gwneud cyfraniadau sylweddol eraill hefyd. Gall enwebeion ddod o amrywiaeth o swyddi gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, swyddi pwyllgorau clwb neu swyddi lles, achubwyr bywyd, hyfforddwyr neu athrawon.

***Meini Prawf:***

- Rhaid bod o dan 21 mlwydd oed.
- Mae'n rhaid bod ag aelodaeth Nofio Cymru gyfredol.
- Rhaid iddyn nhw beidio â bod yn derbyn tâl am wasanaethau gwirfoddoli.

## Gwirfoddolwr Campau Dŵr

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon i gydnabod unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol a chadarnhaol i gampau dŵr yng Nghymru. Yn ogystal â dangos ymroddiad i ddatblygiad personol, rhaid i enwebeion fod wedi dangos ymrwymiad i ddatblygu a hyrwyddo campau dŵr yng Nghymru. Efallai eu bod wedi gwneud cyfraniadau sylweddol eraill hefyd. Gall enwebeion ddod o amrywiaeth o swyddi gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, swyddi pwyllgorau clwb neu swyddi lles, achubwyr bywyd, hyfforddwyr neu athrawon.

***Meini Prawf:***

- Mae'n rhaid bod ag aelodaeth Nofio Cymru gyfredol.
- Rhaid iddyn nhw beidio â bod yn derbyn tâl am wasanaethau gwirfoddoli.

## Athro/Athrawes Campau Dŵr

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon yn cydnabod athro sy'n darparu gwersi o safon o wythnos i wythnos. Maen nhw'n ymroddedig i wella safonau eu dysgwyr ac yn mynd gam ymhellach i sicrhau eu bod yn darparu'r profiad dysgu o'r ansawdd gorau i'w disgyblion.

***Meini Prawf:***

- Rhaid bod yn athro nofio cymwysedig *Swim England* (neu ASA gynt) sydd wedi parhau i geisio datblygiad personol/proffesiynol parhaus.
- Rhaid bod yn cyflwyno gwersi yn un neu fwy o'r fframweithiau Dysgu Nofio Cymru (Swigod, Sblash, Ton, Nofio Ysgol, Sgiliau neu Oedolion).
- Rhaid iddyn nhw fod yn cyflwyno dull hwyliog a deinamig o ddysgu nofio.
- Mae'n rhaid bod yr holl lwyddiannau wedi cael eu cyflawni yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Ysgol Nofio

***Disgrifiad:***
Dylai Ysgolion Nofio a enwebwyd yn y categori hwn fod yn esiampl o ddarparu gwasanaeth rhagorol i'w holl aelodau, gan sicrhau datblygiad eu dysgwyr, eu nofwyr a'u staff drwy ymdrechu'n barhaus i gyrraedd safonau uchel.

***Meini Prawf:***

- Achrediad Dysgu Nofio cyfredol.
- Llai na 600 o gyfranogwyr presennol.
- Rhaid bod yn cyflwyno gwersi yn un neu fwy o fframweithiau Dysgu Nofio Cymru (Swigod, Sblash, Ton, Nofio Ysgol, Sgiliau neu Oedolion).
- Rhaid i'r Ysgol Nofio gynnig / gwobrwyo cyfranogwyr gyda Gwobrau Dysgu Nofio Cymru.
- Dangos tystiolaeth o ffyrdd arloesol o gyflwyno sesiynau Dysgu Nofio.
- Dangos sut maen nhw'n cefnogi amgylchedd dysgu cynhwysol.
- Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr ysgol nofio.

## Darparwr Dysgu Nofio Cymru

***Disgrifiad:***
Dylai darparwyr a enwebwyd yn y categori hwn ddangos esiampl o ddarparu gwasanaeth rhagorol i'w holl aelodau, gan sicrhau datblygiad eu dysgwyr, eu nofwyr a'u staff drwy ymdrechu'n barhaus i gyrraedd safonau uchel.

***Meini Prawf:***

- Achrediad Dysgu Nofio cyfredol.
- Mwy na 600 o gyfranogwyr presennol.
- Rhaid bod yn cyflwyno gwersi yn un neu fwy o fframweithiau Dysgu Nofio Cymru (Swigod, Sblash, Ton, Nofio Ysgol, Sgiliau neu Oedolion).
- Rhaid i'r Ysgol Nofio gynnig / gwobrwyo cyfranogwyr gyda Gwobrau Dysgu Nofio Cymru.
- Dangos tystiolaeth o ffyrdd arloesol o gyflwyno sesiynau Dysgu Nofio.
- Dangos sut maen nhw'n cefnogi amgylchedd dysgu cynhwysol.
- Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr ysgol nofio.

**Effaith ar Nofio a Diogelwch Dŵr Ysgolion**

***Disgrifiad:***
Mae'r Wobr Effaith ar Nofio a Diogelwch Dŵr Ysgolion yn dathlu unigolion, ysgolion, darparwyr gwersi, clwb neu sefydliadau eithriadol, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar nofio mewn ysgolion a diogelwch dŵr. Mae'r wobr hon yn cydnabod y rhai sy'n wirioneddol angerddol am hyrwyddo diogelwch dŵr a gwella rhaglenni nofio mewn ysgolion, ac sydd wedi dangos cyflawniadau sylweddol yn y maes hwn. Bydd yr enillwyr yn cael eu canmol am eu hymrwymiad rhagorol i sicrhau bod gan bob plentyn y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnyn nhw i gadw'n ddiogel yn y dŵr ac o'i gwmpas drwy gefnogi neu gyflwyno nofio ysgol hwyliog, deniadol ac arloesol

***Meini Prawf:***

- Rhaid bod yn defnyddio Fframwaith Ysgol Nofio.
- Rhaid gallu dangos enghreifftiau o gyflwyno gwersi nofio a diogelwch dŵr o ansawdd uchel a chynhwysol mewn ysgolion.
- Dangos tystiolaeth o ffyrdd arloesol o gyflwyno gwersi nofio a diogelwch dŵr mewn ysgolion.
- Rhaid gallu dangos tystiolaeth o effaith gadarnhaol sylweddol ar ddarpariaeth nofio neu gyrhaeddiad ysgolion yn y flwyddyn flaenorol.
- Rhaid bod wedi cefnogi adrodd ar ofynion casglu data Nofio a Diogelwch Dŵr mewn Ysgolion.

**Menter Cynaliadwyedd**

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon yn cydnabod llwyddiant menter neu brosiect sydd wedi darparu buddion amgylcheddol a thymor hir parhaol i gyfleuster dyfrol (canolfan hamdden, pwll neu gyfleuster awyr agored) neu'r gymuned ddyfrol ei hun. Dylai'r derbynnydd ddangos y newidiadau a weithredwyd a'u cynaliadwyedd, gan amlygu sut mae'r newidiadau hyn yn cyfrannu at fuddion amgylcheddol a chynaliadwy hirdymor gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i - lleihau ynni, effeithlonrwydd ynni, lleihau $CO_2$, arbed costau ynni a/neu arloesi - a manylu ar y

partneriaid/cynlluniau/cronfeydd sydd wedi bod yn allweddol i gyflawni'r llwyddiant hwn.

***Meini Prawf:***

- Tystiolaeth bod y gofynion uchod wedi eu cyflawni o fewn y 12 mis diwethaf.
- Tystiolaeth y bydd y newidiadau yn cael effaith gadarn.

**Addysgwr Campau Dŵr**

***Disgrifiad:***
Mae'r wobr hon yn cydnabod Addysgwr am eu hymdrechion eithriadol wrth fynd y tu hwnt i ofynion arferol eu rôl, gyda'r prif ffocws ar les a datblygiad y dysgwyr. Dylen nhw hefyd fod wedi dangos amgylchedd dysgu cadarnhaol. Dylai'r Addysgwr hwn fod â'r potensial i fod yn ysbrydoliaeth i athrawon, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr ac addysgwyr y dyfodol.

***Meini Prawf:***

- Mae'n rhaid bod â thrwydded addysgwr *Swim England* gyfredol.
- Mae'n rhaid bod ag aelodaeth Nofio Cymru gyfredol.

- Dangos enghreifftiau o ddarparu ac asesu cyrsiau o ansawdd uchel a DPP ledled Cymru.